
# CYFARWYDDIADAU AR GYFER DEFNYDDIO EICH EASYHALER®

I gael rhagor o wybodaeth am sut i ddefnyddio a storio Easyhaler’ darllenwch daflen y pecyn.

ORION PHARMA

## SUT I DDECHRAU ARNI?




- Daw pob dyfais Easyhaler’ newydd mewn cwdyn ffoil i gadw’r powdr yn sych.
- Peidiwch ag agor y cwdyn nes eich bod yn barod i ddechrau defnyddio eich anadlydd Easyhaler’.
- Mae gan y ddyfais Easyhaler’ ddarn ceg gyda chap llwch y gellid ei dynnu.
- Gwnewch yn siŵr fod y cap llwch yn gorchuddio darn ceg eich dyfais Easyhaler’ pan nad ydych yn ei ddefnyddio. Bydd hyn yn atal unrhyw feddyginiaeth rhag cael ei rhyddhau’n ddamweiniol.

## FIDEO CYFARWYDDIADAU EASYHALER®


SGANIWCH FI

Sganiwch y cod QR ar y dudalen hon i wylio’r fideo am sut i ddefnyddio Easyhaler’.

Gallwch hefyd ddod o hyd i godau QR ar ochr label eich dyfais Easyhaler’, ar garton y pecyn ac ar daflen y pecyn.


Fel arall, ewch i www.oeh.fi/uk i weld y cynnwys hwn.

## SUT I GYMRYD DOS O’CH EASYHALER®?




### 1. YSGWYDWCH

- Tynnwch y cap llwch.
- Rhowch yr anadlydd rhwng eich bys blaen a’ch bawd.
- **Ysgwydwch yr anadlydd** tra bydd ar ei sefyll 3-5 gwaith.



### 2. CLICIWCH

- **Pwyswch i lawr** nes byddwch yn clywed clic.
- Yna, gadewch iddo ddychwelyd i’w safle gwreiddiol.



ATC 2025 Association of Translation Companies
Certified Translation produced by Giraffe Translations
Member No. 2025ATCAC1293


### 3.ANADLWCH I MEWN

- Anadlwch allan fel arfer i ffwrdd o’r ddyfais.
- Rhowch ddarn ceg yr anadlydd yn eich ceg, a chaewch eich gwefusau’n dynn o’i amgylch.
- **Anadlwch yn gryf ac yn ddwfn i mewn.**
- Tynnwch yr anadlydd o’ch ceg a daliwch eich anadl am o leiaf 5 eiliad.
- Anadlwch allan fel arfer.
- Os yw eich presgripsiwn yn gofyn i chi gymryd mwy nag un dos, dilynwch gamau 1 i 3 eto bob tro y byddwch yn defnyddio eich anadlydd. Pan fyddwch wedi gorffen, ailosodwch y cap llwch ar y darn ceg.
- Os yw eich dyfais Easyhaler’ yn cynnwys corticosteroid (atalydd) sy’n cael ei anadlu i mewn, cofiwch olchi’ch ceg a’ch gwddf â dŵr, a’i boeri allan. Peidiwch â llyncu. Bydd hyn yn helpu i leihau’r risg o haint ffwngaidd yn y geg (y llindag).

# CYFARWYDDIADAU AR GYFER DEFNYDDIO EICH EASYHALER®


ORION PHARMA

## GORCHUDD AMDDIFFYNNOL




- Mae gorchudd amddiffynnol yn ddewisol. Agorwch y gorchudd amddiffynnol a rhowch yr anadlydd ynddo.
- Wrth ddefnyddio gorchudd amddiffynnol, agorwch y gorchudd a dilynwch y camau: **1. Ysgwydwch, 2. Cliciwch a 3. Anadlwch i Mewn**
- Gosodwch y cap llwch a chaewch y gorchudd ar y gorchudd amddiffynnol.

## GLANHAU



- Glanhewch y darn ceg â lliain neu hances sych a glân.
- Peidiwch â defnyddio dŵr na hylifau eraill i lanhau eich Easyhaler®. Gallai unrhyw beth gwlyb amharu ar y powdr y tu mewn i'ch anadlydd.
- Os ydych chi'n defnyddio gorchudd amddiffynnol, nid oes angen i chi dynnu'r anadlydd i lanhau'r darn ceg.

## BETH I'W WNEUD PAN...





### CLICIOCH CHI MWY NAG UNWAITH?

- A glicioch chi ar yr anadlydd yn ddamweiniol? Mae'n bwysig clicio unwaith yn unig er mwyn cael y dos cywir.

### ANADLOCH CHI I MEWN I'R ANADLYDD?

- Anadloch chi **I MEWN** i'r anadlydd? Mae'n bwysig eich bod yn osgoi anadlu i mewn i geg yr anadlydd oherwydd gallai hyn rwystro'r anadlydd.




### ATEB

### GWAGIWCH Y DARN CEG!

- Tarwch y darn ceg i wagio'r powdr ar fwrdd neu gledr eich llaw.
- Yna, dechreuwch eto gyda'r camau: **1. Ysgwydwch, 2. Cliciwch a 3. Anadlwch i mewn.**

## CAEL EASYHALER NEWYDD



**Rhifydd Dosau**

- Mae gan yr anadlydd rifydd dosau ar yr ochr. Mae hwn yn dangos faint o ddosau sydd ar ôl yn eich dyfais.
- Mae'r rhifydd yn troi ar ôl pob 5ed dos ac mae'r nifer a ddangosir yn gostwng mewn unedau o 10.
- Pan fydd y rhifydd dosau yn troi'n goch, mae 20 dos ar ôl. Cysylltwch â'ch meddyg am bresgripsiwn newydd os nad oes gennych anadlydd newydd eisoes.
- **Pan fydd y rhifydd yn cyrraedd 0, bydd angen anadlydd arall arnoch chi.**
- Os ydych chi'n defnyddio gorchudd amddiffynnol, cadwch hwn i'w ddefnyddio gyda'ch anadlydd nesaf.

Os cewch unrhyw sgil-effeithiau, siaradwch â'ch meddyg, fferyllydd neu nyrs. Mae hyn yn cynnwys unrhyw sgil-effeithiau posibl nad ydynt wedi'u rhestru ar daflen y pecyn. Gallwch hefyd roi gwybod am sgil-effeithiau yn uniongyrchol drwy'r Cynllun Cerdyn Melyn yn: www.mhra.gov.uk/yellowcard.
Trwy adrodd am sgil-effeithiau, gallwch chi helpu rhoi mwy o wybodaeth am ddiogelwch y feddyginiaeth.

Cynhyrchwyd y deunydd hwn drwy ddefnyddio papur wedi'i ailgylchu

February 2025/EASYH-413(1)a(2)

ATC 2025 Association of Translation Companies
Certified Translation produced by
Giraffe Translations
Member No. 2025ATCAC1293

Orion Pharma (UK) Ltd, Abbey Gardens, 4 Abbey Street, Reading, RG1 3BA, UK

ORION PHARMA